**Trawsfynydd site stakeholder group report**
**3 December 2020**
**Angharad Rayner, Trawsfynydd Site Director**



I hope this update finds you and your families safe and well as we've emerged from Wales' firebreak lockdown. It has been a challenging year for everyone as we constantly adapt to the 'new normal' but despite the many difficulties this has presented we've achieved good progress at Trawsfynydd since we last met in July. This is testament to the dedication and commitment of the team working together - whether from home, at site or a combination of the two - for which I am immensely proud.

From the 11 November we proactively scaled back a number of work activities and gradually reduced the number of employees on site as a result of a small number of employees testing positive for Covid 19 and some of our personnel in the local community being told by NHS Test & Trace to self-isolate. Working closely with the local authority environmental health officer, we identified further potential contacts who were asked not to attend site as a precautionary measure.

These measures were taken to limit the potential spread of Covid 19 within the work environment and to support the local community at this time.

The site has maintained safety, security and environmental compliance activities and progressed routine maintenance activities to ensure our decommissioning programme can resume quickly. Some key asset management activities are also continuing such as; Pen-y-Bryn office accommodation roof repairs and the new access road being formed to the diversion culvert. Where possible personnel are working from home and further IT provision has been made available to support this.

The company continues to keep the situation under review to determine when a resumption of those activities paused should restart with employees returning to site. We are monitoring the health and wellbeing of the workforce during this period.

Magnox recently hosted its first virtual supply chain event which was attended by over 600 people eager to engage in shaping the new supply chain strategy required to develop the most appropriate solution to deliver the new reactor decommissioning programme to be initiated at Trawsfynydd. Sohail Ashraif, Continuous Reactor Decommissioning Programme Manager, is attending the SSG to give you an update on the next steps for this first of a kind, innovative programme of work.

I am very much looking forward to seeing you again, albeit virtually, on 3 December and do hope you can join us to also hear site, regulator and NDA reports as well as Snowdonia Enterprize Zone developments, a Trawsfynydd Ponds Complex demolition project update and Ynni Cymunedol Twrog's news.

Cofion cynnes,

**Angharad**

## Smarter working

Magnox has launched a project to consider smarter working spaces for all site-based workforces, looking at improving accommodation so that work areas are based on tasks. For example, this could mean separate project areas, quiet spaces and collaboration spaces.

Other areas of focus for the project team are potential IT upgrades that could include providing Wi-Fi to site, new IT equipment and improved video conferencing facilities.

## People focus

In September, we welcomed five school leavers to site as they embark on a new Magnox apprenticeship programme. They are studying for an NVQ level two Diploma in Radiation Protection at Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau on day release. Following two - three years on the job training they will qualify as Magnox level five health physics monitors.



It is fantastic that Magnox can offer such opportunities to local young people who will play an important role in taking the site forward on the roadmap to its end state. We wish them all well on their new careers within the industry.

We are developing an equality, diversity and inclusion plan that reflects the feedback received from workforce surveys and a number of focus groups. This important work is being done in consultation with site's diversity ambassador Tas Akhtar, a lead team sponsor, trade union reps, HR and other site stakeholders to ensure Trawsfynydd is a site where everybody can feel respected and valued.

We've recruited eight Covid-19 champions to give peer-to-peer support, highlight good practice and make suggestions for improvements to ensure the site remains 'Covid safe.' This is in addition to the controls for Covid-19 which have been implemented on site that and are designed to keep everyone safe; including a Covid-19 risk assessment, briefings, training and videos.

The site's health & well-being group organised free zoom-yoga sessions in November and are busy planning their next activities to support work life balance and mental health as we head into the long winter months.

A flu vaccination clinic was held in the visitor centre on 8 November.

Eleven local people have been recruited to support the increase in plant and structures programme work to de-plant the entire ponds complex in preparation for demolition and reactor height reduction project planning.

## Workforce profile

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Magnox | 147 | Contractor supplied workers | 14 | % local | 97% |
| Agency supplied workers | 51 | Total | 212 | | |

## Site progress




A new modular unit arrived in September to provide additional accommodation to ensure principle contractor Erith's compliance with Covid-19 social distancing and to enable normal operations to restart.

Work is being prepared to commence removing reactor safestore cable riser No2 and install new staircases/handrails on the ground floor.



A 130-tonne crane lifted the 17-tonne lead lined Camsey tank into a reinforced ISO container for transportation to the Studsvik metallic low level waste smelting facility in Sweden.

The tank had previously been used for ponds sludge processing during the site's generation phase and was de-planted from the former pooling ponds complex in the late 1990's.

On 3 September, the ONR approved our application for the completion of the latest milestone LC35.06 which is associated with the conclusion of the retrievals, processing and interim storage of all wet intermediate level waste (ILW) on site.

A total of 1941 resin packages were produced over eight campaigns and 76 sludge and mixed residual waste packages were produced over four campaigns. This milestone was deemed complete when verification of the following was approved:

- ✓ All waste in scope has been retrieved
- ✓ ILW package records are complete
- ✓ ILW packages are in a suitable storage location.

The first low-level waste consignment since the operational pause was dispatched to Tradebe, Southampton in September. The 88 drum load contained 17,600 litres of combustible soft waste including wood, organics, sludge and 18.48$m^3$ of hoover bags.

Fuel element debris (FED) retrievals also commenced in September, beginning with box seven in the south plant.

Under guidance from the EHSS&Q function, the FED operations team implemented new Covid-19 controls to the north and south FED processing plants in order to maintain operator safety during retrievals.

This included installing new protective screens on the operator control platforms and altering existing changing facilities to enable access to the C4 retrieval areas. The team also successfully managed assay system failures and crane issues.




Remote raking and retrieval of residual FED from the corners of the vaults is scheduled to run until mid-January in the North FED Plant.

This will be followed by a retrievals campaign in the Magnox debris handling and storage facility.

**Radioactive waste delivery targets**

| Activity | Target | Achieved |
|---|---|---|
| Low level waste consignments | 10 by 31.3.21 | 2 |
| North FED retrievals (NDA delivery milestone) | 64 boxes by 31.3.21 | 60 |
| South FED retrievals | 36 boxes by 31.3.21 | 10 |

Formation of the new access road and access to the diversion culvert is really starting to take shape.



The tremendous progress principal contractor, JN Bentley, has made over recent weeks is visible to anyone coming to site. The next stage of the project requires diverting temporary over-pumping of current surface water flows away from the diversion culvert, to enable construction works to start and the programme to be maintained.

A faulty non-return valve in the site's sewage works sludge pumping system was replaced, following a lot of preparatory work to identify and source the correct valve due to historic modifications.

This involved a two-hour, two-man entry into one of the dirtiest, most uncomfortable places to work on site. The fitters had very little room to manoeuvre, but skilfully released the extremely tight pipework to replace the faulty valve.




A redundant mixed bed tank from the historic active effluent treatment plant has been dismantled. This work involved size reducing and cleaning the tank and removing any residual resin. The next stage will be to clear the whole area so that the team can complete clearance of the redundant north filter room later in the year.



Contract partner OBR commenced work to repair the Pen y Bryn office accommodation roof in September.




Social distancing took on new heights during the annual reactor safestore maintenance and descaling work carried out in October.

## Safety focus

Number of days since a lost time inquiry:**1548**

Monthly Target Zero safety campaigns have been held regarding electrical safety, fire safety and operational experience feedback which is the process by which all sites seek to use lessons learned to improve safety and reliability and prevent a loss.

Everyone has been asked to complete an online training course to raise awareness of general electrical safety at work and at home.

A Lloyds Register quality assurance audit was held virtually throughout a week in October. I am really pleased to report that the auditor commented: "During the last 18 months I have not visited a site with as high a standard as Trawsfynydd."

We were also complimented on our honesty and professionalism and the clear focus on health, safety and environment in everything we do was noted. Although there were a couple of minor areas for improvement, I am immensely proud of the result.

## Reactor bioshield coring

As part of the development of an optimised end state for the bioshields at Trawsfynydd, which may include on-site disposal, the site restoration programme has used an existing activation model for assessing the radiological inventory of the reactor bioshield concrete. In order to verify this analytical model and to underpin the site and wider fleet activated concrete waste volumes and inventories the plant and structures team are extracting concrete core samples of the reactor bioshield for radiological and chemical analysis.

This work involves the removal of three cores through the full 3.1 metre depth and needs to be arranged and located carefully to ensure that the cores do not go through the mortuary tubes or other obstructions. Erith in partnership with OBR will undertake the works over the coming months and once removed the cores will be assessed and monitored on site with some early site radiological analysis being undertaken by laser ablation. From this the Radiochemistry intelligent customer will determine the extent of offsite analysis required to provide sufficient information to verify the analytical model.



**Adroddiad grŵp rhanddeiliaid safle Trawsfynydd**
**3 Rhagfyr 2020**
**Angharad Rayner, Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd**



Wrth ysgrifennu'r diweddariad hwn, gobeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd yn iach ac yn ddiogel wrth inni ddod allan o'r cyfnod clo byr yng Nghymru. Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb wrth inni addasu yn gyson i'r 'normal newydd', ond er gwaethaf y llu o anawsterau y mae hyn wedi'i achosi, rydym wedi gwneud cynnydd da yn Nhrawsfynydd ers inni gyfarfod ddiwethaf ym mis Gorffennaf. Mae hyn yn brawf o ymroddiad ac ymrwymiad y tîm sy'n cydweithio – p'un ai o'u cartrefi, ar y safle neu gyfuniad o'r ddau – ac rydw i'n eithriadol o falch am hynny.

O'r 11eg Tachwedd, gwnaethom gwtogi nifer o weithgareddau gwaith yn rhagweithiol a lleihau'r nifer o weithwyr ar y safle yn raddol, o ganlyniad i nifer fechan o weithwyr yn cael eu profi yn bositif am Covid-19 a dywedwyd wrth rhai o'n gweithwyr yn y gymuned leol i hunanynysu gan Brofi ac Olrhain y GIG. Drwy weithio yn agos â swyddog iechyd amgylcheddol yr awdurdod lleol, rydym wedi nodi cysylltiadau posibl eraill y gofynnwyd iddyn nhw beidio â mynychu'r safle fel mesur rhagofalus.

Cymerwyd y mesurau hyn er mwyn cyfyngu ar ledaeniad posibl Covid-19 yn amgylchedd y gwaith ac i gefnogi'r gymuned leol ar hyn o bryd.

Mae'r safle wedi cynnal gweithgareddau diogelwch, diogeledd a gweithgareddau cydymffurfio amgylcheddol ac wedi symud ymlaen gyda gweithgareddau cynnal a chadw arferol er mwyn sicrhau y gall ein rhaglen ddatgomisiynu ailddechrau yn gyflym. Yn ogystal, mae rhai gweithgareddau allweddol ynglŷn â rheoli asedau yn parhau, fel atgyweiriadau ar do swyddfa Pen-y-Bryn a'r ffordd fynediad newydd sy'n cael ei llunio i'r cwlfert gwyro. Lle mae'n bosibl, mae gweithwyr yn gweithio o'u cartrefi ac mae mwy o ddarpariaeth TG wedi dod ar gael i gefnogi hyn.

Mae'r cwmni yn parhau i adolygu'r sefyllfa er mwyn penderfynu ba bryd y dylid ailddechrau'r gweithgareddau hynny y bu oedi arnyn nhw, gyda gweithwyr yn cael dychwelyd i'r safle. Rydym yn monitro iechyd a llesiant y gweithlu yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Magnox ei ddigwyddiad cadwyn gyflenwi rithwir gyntaf, a fynychwyd gan dros 600 o bobl a oedd yn awyddus i ymgysylltu er mwyn llunio strategaeth cadwyn gyflenwi newydd sydd ei hangen i ddatblygu'r datrysiad mwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen newydd ar gyfer datgomisiynu'r adweithyddion sydd i'w dechrau yn Nhrawsfynydd. Mae Sohail Ashraif, Rheolwr Rhaglen Barhaus Datgomisynu Adweithyddion, yn mynychu cyfarfod o Grŵp Rhanddeiliaid y Safle er mwyn rhoi diweddariad i chi ynglŷn â'r camau nesaf ar gyfer y rhaglen waith arloesol, y gyntaf o'r math hwn.

Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn at eich gweld chi eto ar 3ydd Rhagfyr, er mai'n rhithwir fydd hyn, a gobeithiaf y gallwch chi ymuno â ni i glywed yr adroddiad safle, adroddiad y rheoleiddiwr ac adroddiad y Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, yn ogystal â datblygiadau Parth Menter Eryri, diweddariad ar brosiect dymchwel Cyfadeilad Pyllau Trawsfynydd a newyddion gan Ynni Cymunedol Twrog.

Cofion cynnes, **Angharad**

## Gweithio doethach

Mae Magnox wedi lansio prosiect er mwyn ystyried mannau gweithio doethach ar gyfer holl weithluoedd sydd ar y safle, gan edrych ar wella adeiladau fel bod mannau gwaith yn seiliedig ar dasgau. Er enghraifft, gall hyn olygu mannau ar wahân ar gyfer prosiectau, mannau tawel a mannau ar gyfer cydweithredu.

Meysydd eraill i ganolbwyntio arnyn nhw i'r tîm prosiect yw uwchraddio TG o bosibl, a allai gynnwys darparu Wi-Fi i'r safle, cyfarpar TG newydd a gwell cyfleusterau fideo gynadledda.

Rydw i'n falch iawn o ddweud bod Trawsfynydd wedi cael ei ddewis fel y prif safle gweithio doethach ar gyfer y fenter flaengar hon gan y cwmni.

## Canolbwyntio ar bobl

Ym mis Medi, gwnaethom groesawu pump o ymadawyr ysgol i'r safle wrth iddyn nhw ddechrau rhaglen brentisiaeth newydd gan Magnox. Maen nhw'n astudio ar gyfer Diploma NVQ Lefel dau mewn Amddiffyn rhag Ymbelydredd yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau ac yn cael diwrnod astudio. Yn dilyn dwy neu dair blwyddyn o hyfforddiant mewn swydd, byddan wedi cymhwyso fel Monitoriaid Ffiseg Iechyd lefel pump Magnox.



Mae'n wych y gall Magnox gynnig cyfleoedd o'r fath i bobl ifanc lleol a fydd yn chwarae rhan bwysig wrth symud y safle ymlaen ar y ffordd at ddiwedd ei oes. Dymunwn yn dda iddyn nhw i gyd yn eu gyrfaoedd newydd yn y diwydiant.

Rydym yn datblygu cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolygon y gweithlu a nifer o grwpiau ffocws. Mae'r gwaith pwysig hwn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â Tas Akhtar, llysgennad amrywiaeth y safle, prif noddwr y tîm, cynrychiolwyr yr undebau llafar, AD a rhanddeiliad eraill y safle er mwyn sicrhau bod Trawsfynydd yn safle lle y gall bawb deimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Rydym wedi recriwtio wyth o eiriolwyr Covid 19 i roi cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid, tynnu sylw at ymarfer da a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i sicrhau bod y safle yn parhau yn 'ddiogel ar gyfer Covid.' Mae hyn yn ychwanegol at y rheolaethau ar gyfer Covid-19 sydd wedi cael eu gweithredu ar y safle ac maen nhw wedi'u cynllunio i gadw pawb yn ddiogel; gan gynnwys asesiad risg Covid-19, briffio, hyfforddiant a fideo.

Trefnodd grŵp iechyd a llesiant y safle sesiynau ioga drwy *Zoom* ym mis Tachwedd ac maen nhw'n brysur yn cynllunio eu gweithgareddau nesaf i gefnogi cydbwysedd gwaith a bywyd ac iechyd meddwl wrth inni gamu i mewn i fisoedd hir y gaeaf.

Cynhaliwyd clinig brechu rhag ffliw yn y ganolfan ymwelwyr ar 8fed Tachwedd.

Mae un ar ddeg o bobl leol wedi cael eu recriwtio i gefnogi'r cynnydd ar raglen waith safle a strwythurau i dynnu'r holl cyfadeilad pyllau mewn paratoad ar gyfer cynllunio'r prosiect dymchwel a lleihau uchder yr adweithydd.

## Proffil y gweithlu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Magnox | 147 | Gweithwyr a ddarparwyd drwy gontractwyr | 14 | % lleoll | 97% |
| Gweithwyr a ddarparwyd drwy asiantaethau | 51 | Cyfanswm | 212 | | |

## Cynnydd ar y safle




Ym mis Medi, cyrhaeddodd uned fodiwlar newydd er mwyn darparu lle ychwanegol i sicrhau bod Erith, y prif gontractwr yn cydymffurfio â phellter cymdeithasol Covid-19 er mwyn galluogi ailddechrau'r gweithrediadau arferol.

Mae gwaith yn cael ei baratoi i ddechrau cael gwared â phibell geblau storfa ddiogel adweithydd Rhif 2 a gosod grisiau/canllawiau newydd ar y llawr isaf.



Cododd craen 130-tunnell y tanc Camsey 17 tunnell sydd wedi cael ei leinio gyda phlwm i mewn i gynhwysydd ISO cyfnerthedig ar gyfer ei gludo i gyfleuster mwyndoddi gwastraff lefel isel metelaidd Studsvik yn Sweden.

Roedd y tanc wedi cael ei ddefnyddio yn flaenorol ar gyfer prosesu slwtsh pyllau yn ystod cyfnod cynhyrchu'r safle a chafodd ei symud o gyfadeilad blaenorol y pyllau cronni yn hwyr yn y 1990au.

Ar 3ydd Medi, cymeradwyodd y SRhN ein cais i gwblhau'r garreg filltir olaf, LC35.06, sy'n gysylltiedig â chwblhau tynnu, prosesu a storio'r holl wastraff lefel ganolraddol (GLG) gwlyb dros dro.

Cynhyrchwyd cyfanswm o 1941 o becynnau resin yn ystod wyth ymgyrch a chynhyrchwyd 76 pecyn o slwtsh a gwastraff gweddilliol cymysg yn ystod pedair ymgyrch.  Tybiwyd bod y garreg filltir hon yn gyflawn pan gymeradwywyd dilysu'r canlynol:

- ✓ Pob gwastraff gweladwy wedi cael ei dynnu
- ✓ Cofnodion pecynnau GLG yn gyflawn
- ✓ Mae pecynnau GLG mewn lleoliad storio addas

Anfonwyd y llwyth gwastraff lefel isel cyntaf ers y saib gweithredol i Tradebe, Southampton ym mis Medi.  Roedd y llwyth o 88 drwm yn cynnwys 17,600 litr o wastraff meddal llosgadwy a oedd yn cynnwys coed, sylweddau organig, slwtsh a 18.48m$^3$ o fagiau *Hoover*.

Dechreuwyd ar y gwaith o dynnu gweddillion elfennau tanwydd (GET) ym mis Medi, gan ddechrau gyda blwch 7 yng ngwaith y de.

O dan ganllawiau'r swyddogaeth EHSS&Q, gweithredwyd rheolaethau Covid-19 newydd gan dîm gweithrediadau GET i'r gweithfeydd prosesu GET yn y gogledd a'r de, er mwyn cynnal diogelwch y gweithredwr yn ystod y gwaith tynnu.

Roedd hyn yn cynnwys gosod sgriniau diogelwch newydd ar blatfformau rheoli'r gweithredwr a newid y cyfleusterau newid presennol i alluogi cael mynediad at ardaloedd tynnu C4.  Yn ogystal, llwyddodd y tîm i reoli methiannau'r system brofi a'r problemau gyda'r craen.




Mae gwaith cribinio a thynnu gweddillion elfennau tanwydd o bell o gorneli'r daeargelloedd wedi'i drefnu i redeg tan ganol mis Ionawr yng Ngwaith GET y Gogledd.

Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ymgyrch dynnu yng nghyfleuster ymdrin a storio gweddillion Magnox.

**Targedau cyflawni ar gyfer gwastraff ymbelydrol**

| Gweithgaredd | Targed | Cyflawnwd |
|---|---|---|
| Llwythi gwastraff lefel isel | 10 erbyn 31.3.21 | 2 |
| Tynnu GET y Gogledd<br>(carreg filltir cyflawni'r ADN) | 64 blwch erbyn 31.3.21 | 60 |
| Tynnu GET y De | 36 blwch erbyn 31.3.21 | 10 |

Yn wir, mae creu'r ffordd fynediad newydd a'r mynediad i'r cwlfert gwyriad yn dechrau siapio.

Mae'r cynnydd anhygoel y mae'r prif gontractwr, JN Bentley wedi'i wneud yn ystod yr wythnosau diweddar yn weladwy i unrhyw un sy'n dod i'r safle. Mae cam nesaf y prosiect angen gwyro llifau cyfredol dŵr y wyneb a orbwmpiwyd oddi wrth y cwlfert gwyriad, er mwyn galluogi dechrau'r gwaith adeiladu ac ar gyfer cynnal y rhaglen.



Gosodwyd falf un ffordd yn system pwmpio slwtsh gwaith carthion y safle yn lle'r hen un a oedd yn ddiffygiol, yn dilyn llawer o waith paratoadol i nodi a tharddu'r falf gywir oherwydd addasiadau hanesyddol.

Roedd hyn yn cynnwys mynediad i ddau ddyn am ddwy awr i un o'r lleoedd mwyaf anghyfforddus i weithio ar y safle. Ychydig iawn o le a oedd gan y gosodwyr i symud, ond gwnaethon nhw ryddhau'r gwaith peipiau tynn yn ddeheuig a gosod falf newydd i mewn yn lle'r un ddiffygiol.



Mae tanc gwely cymysg diangen o'r gwaith trin elifion gweithredol hanesyddol wedi cael ei ddatgymalu. Roedd y gwaith hwn ynghlwm â lleihau maint y tanc, ei lanhau a chael gwared ag unrhyw resin gweddilliol. Y cam nesaf fydd clirio'r holl ardal, fel y gall y tîm gwblhau clirio ystafell ffiltro ddiangen y gogledd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.






Dechreuodd partner contract OBR ar y gwaith i atgyweirio to swyddfa Pen y Bryn ym mis Medi.




Gwelwyd pellter cymdeithasol ar ei newydd wedd yn ystod y gwaith cynnal a chadw blynyddol ar storfa ddiogel yr adweithydd a'r gwaith digennu a wnaed ym mis Hydref.

## Canolbwyntio ar ddiogelwch

Nifer o ddyddiau ers cynnal ymholiad amser coll: **1548**

Cynhaliwyd ymgyrchoedd diogelwch misol â Tharged o Sero ynglŷn â diogelwch trydanol, diogelwch tân ac adborth profiad gweithredol, sef y broses drwy'r hon y mae'r holl safleoedd yn ceisio defnyddio gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella diogelwch a dibynadwyedd ac atal colled.

Gofynnwyd i bawb gwblhau cwrs hyfforddi ar-lein i godi ymwybyddiaeth ynglyn â diogelwch trydanol cyffredinol yn y gwaith ac yn y cartref.

Cynhaliwyd archwiliad sicrwydd ansawdd *Lloyds Register* yn rhithwir yn ystod wythnos ym mis Hydref. Rydw i'n falch iawn i adrodd bod yr archwiliwr wedi nodi: "Yn ystod y 18 mis diwethaf, nid wyf wedi ymweld â safle gyda safon mor uchel â Thrawsfynydd."

Cawsom hefyd ein canmol am ein gonestrwydd a'n proffesiynoldeb a nodwyd y ffocws eglur ar iechyd, diogelwch ac amgylchedd ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Er bod cwpl o fân bwyntiau lle gellir gwella, rydw i'n falch dros ben o'r canlyniad.

## Creidd-samplu biodarian yr adweithydd

Fel rhan o ddatblygu'r cyflwr terfynol gorau ar gyfer y biodarianau yn Nhrawsfynydd, a all gynnwys gwaredu ar y safle, mae'r rhaglen adfer y safle wedi defnyddio model actifiant sy'n bodoli'n barod ar gyfer asesu cynnwys a chyflwr radiolegol concrit biodarian yr adweithyddion. Er mwyn dilysu'r model dadansoddol hwn ac ategu cyfeintiau a chynnwys a chyflwr gwastraff concrit actifedig y safle a'r fflyd ehangach, mae tîm y gwaith a'r strwythurau yn tynnu samplau craidd concrit biodarian yr adweithydd ar gyfer dadansoddiad radiolegol a chemegol.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cael gwared â thri craidd drwy'r dyfnder 3.1 metr llawn ac mae angen eu trefnu a'u lleoli yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r creiddiau yn mynd

trwy diwbiau'r corffdy na rhwystrau eraill. Bydd Erith, mewn partneriaeth ag OBR, yn ymgymryd â'r gwaith yn ystod y misoedd sydd i ddod ac unwaith y byddan nhw wedi'u tynnu, bydd y creiddiau yn cael eu hasesu a'u monitro ar y safle, gyda rhywfaint o ddadansoddiad radiolegol cynnar yn cael ei wneud ar y safle gan abladiad laser. O hyn, bydd y cwsmer deallus mewn radiocemeg yn penderfynu faint o ddadansoddiad oddi ar y safle sydd ei angen i ddarparu digon o wybodaeth er mwyn dilysu'r model dadansoddol.

